



### Awards Criteria:

Award	Criteria
<b>Aelod Cymdeithas y Flwyddyn</b>	Cyflwynir y wobwr hon i'r unigolyn sydd wedi rhagori yn ei faes ac sydd wedi gwella enw da Aberystwyth. Mae'n bosib y byddant wedi cynrychioli eu cymdeithas ar lefel ranbarthol / genedlaethol neu wedi rhagori o fewn strwythur y brifysgol neu'r undeb.
<b>Personoliaeth Cymdeithasau'r Flwyddyn</b>	Cyflwynir i'r unigolyn sy'n perfformio ar lefel uchel o fewn eu cymdeithas, ond sydd hefyd yn dangos dawn bersonol, hiwmor a brwdfrydedd ym mhob agwedd o'u cymdeithas a chymuned Tîm Aber yn gyffredinol.
<b>Gwobr Rhagoriaeth Weinyddol</b>	Mae'r wobwr hon ar gyfer rhywun sydd wedi ymrwymo i redeg a gweinyddu cymdeithas benodol. Dyma'r arwr tawel sy'n eistedd wrth ddesg yn anfon e-byst neu'n casglu arian.
<b>Cymdeithas y Flwyddyn</b>	Cymdeithas y Flwyddyn yw'r wobwr mae pawb yn eiddgar i'w hennill o fewn Tîm Aber. Fe'i cyflwynir i'r gymdeithas fwyaf llwyddiannus, ymroddgar a gweithredol yn ystod y flwyddyn academaidd.
<b>Y Gymdeithas sydd wedi Gwella Fwyaf Eleni</b>	Y meini prawf ar gyfer y wobwr hon yw gwelliant o ran llwyddiant, ysbryd a threfniant y gymdeithas. Dylent hefyd ddangos ymroddiad i gynnal y cynnydd hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
<b>Gwobr y Pencampwyr</b>	Cyflwynir i'r gymdeithas sydd wedi gwneud yn arbennig o dda ar lefel gystadleuol. Dyma'r tîm sydd wedi cynrychioli'r brifysgol yn dda mewn cystadlaethau neu ddigwyddiadau allan, gan wella enw da Prifysgol Aberystwyth.

<b>Y Cyfraniad Mwyaf gan Gymdeithas Elusennol</b>	Cyflwynir y wobr hon i gymdeithas elusennol lle mae'r aelodau wedi rhoi cryn lawer o'u hamser at eu hachos gydol y flwyddyn // cymdeithas sydd wedi codi swm sylweddol ar gyfer eu helusen neu achos.
<b>Gwobr Diwylliant Cymreig</b>	Mae'r gymdeithas wedi integreiddio dwyieithrwydd i'w gweithgareddau a'u deunyddiau hyrwyddo, yn ogystal â gwarchod diwylliant/treftadaeth Gymreig ac annog cyfranogiad siaradwyr y Gymraeg.
<b>Cymdeithas Newydd Orau</b>	Cyflwynir y wobr hon i gymdeithas sydd wedi'i sefydlu o'r newydd neu wedi'i hailsefydlu, yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Maen nhw wedi gweithio'n galed i sefydlu eu hunain a chael effaith ar fywydau myfyrwyr.
<b>Cyfraniad Mwyaf gan Gymdeithas nad yw'n un RAG Elusennol</b>	Rhoddir y wobr hon i gymdeithas y mae ei aelodau wedi rhoi cryn lawer o'u hamser at achos da gydol y flwyddyn, wedi treulio cryn amser i helpu myfyrwyr neu'r gymuned leol neu wedi codi swm sylweddol ar gyfer elusen.
<b>Cymdeithas Academaidd y Flwyddyn</b>	Cyflwynir i'r Gymdeithas Academaidd sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'w hadran, yn ogystal ag i'r Undeb, y Brifysgol a'r Gymuned yn Ehangach.
<b>Cynladwyedd (Diwylliannol/Cymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd)</b>	Mae'r gymdeithas hon wedi mynd ati i hyrwyddo cynladwyedd o fewn ystod eang o'u weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys cynladwyedd diwylliannol/cymdeithasol, cynladwyedd amgylcheddol a/neu gynladwyedd economaidd.
<b>Lliwiau'r Brifysgol: Cymdeithasau (25)</b>	Cyflwynir i fyfyrwr unigol sydd wedi dangos ymroddiad rhagorol parhaus neu wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'w cymdeithas.
<b>Clod Arbennig</b>	Gellir cyflwyno'r wobr hon os yw'r panel yn dewis gwneud hynny mewn cydnabyddiaeth o waith aelod o gymuned y Brifysgol sydd wedi cyfrannu at brofiad myfyrwyr, ond sydd ddim yn gweddu i un o'r categorïau eraill.